Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwr Cymdeithas Tywyswyr Twristiaid Swyddogol Cymru (WOTGA)



**Beth yw nodau'r prosiect?**

Nod y prosiect oedd creu tîm o hyfforddwyr â'r cymwysterau priodol o blith aelodau WOTGA i hyfforddi tywyswyr twristiaid. Byddai pob un yn dywysydd profiadol naill ai â Bathodyn Glas Cymru (Tywysydd Cenedlaethol) neu â Bathodyn Gwyrdd Cymru (Tywysydd Ardal). Ar ôl cymhwyso, byddai'r tîm o hyfforddwyr yn gallu:

- cynhyrchu'r genhedlaeth nesaf o dywyswyr twristiaid proffesiynol i Gymru, fyddai'n dod yn aelodau o WOTGA ac yn elwa ar y rhwydwaith cymorth y mae WOTGA yn ei gynnig.
- cynnal cyrsiau cymeradwyo ar gyfer tywyswyr cymwysedig o rannau eraill o'r DU sydd am ddod i adnabod Cymru a'i hanes a'i diwylliant yn well
- ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i geisiadau gan sefydliadau twristiaeth yng Nghymru sy'n ceisio trefnu rhaglenni sgiliau tywys byr o ansawdd uchel ar lefel fwy lleol.

**Sut cafodd y nodau hyn eu cyflawni?**

Mae WOTGA yn sefydliad wedi'i ganoli sy'n gwasanaethu Cymru gyfan. Mae mewn sefyllfa unigryw i hyrwyddo, cefnogi a lledaenu ansawdd ymhlith tywyswyr twristiaid yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod fod ganddi'r gallu a'r cyfrifoldeb i ddatblygu safonau ansawdd a hwyluso hyfforddiant priodol i'r rhai sydd am weithio fel tywyswyr twristiaid proffesiynol yng Nghymru.

- y safonau y mae gofyn i dywyswyr twristiaid Cymru eu cynnal a
- disgwyliadau ymwelwyr rhyngwladol gwahanol e.e. natur a manylder y sylwebaeth, dulliau cyflwyno
- syniadau cyflwyniadol arloesol

Gwahoddwyd holl aelodau WOTGA i wneud cais ac, yn dilyn proses ddethol, recriwtiwyd deuddeg i fynd ar y cwrs. Roedd strwythur y rhaglen fel a ganlyn:

- Celfyddyd Tywys; rhaglen sgiliau cyfathrebu rhyngweithiol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2018
- Rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwyr a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2018

Llwyddodd pob un o'r deuddeg i gwblhau'r rhaglenni hyn, gan ddod yn Hyfforddwyr i'w Hachredu.

Ar ôl cael cyfle i ymarfer eu sgiliau newydd, gofynnwyd i bob Hyfforddwr greu portffolio o dystiolaeth i'w gyflwyno i FEG, a chymryd rhan mewn viva gyda hyfforddwr o FEG International. Mae cwblhau pob cam o'r rhaglen yn llwyddiannus yn ymgymhwyso Hyfforddwr i'w Achredu i fod yn Hyfforddwr FEG International.

Canlyniad anuniongyrchol y prosiect TPIF (Y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth) oedd i WOTGA gynnal tri chwrs hyfforddi Bathodyn Gwyrdd (Tywysydd Ardal) llwyddiannus yn y Gogledd, y De-ddwyrain a'r De-orllewin.
Yn dilyn proses recriwtio, cychwynnwyd y tri chwrs hyfforddi ym mis Rhagfyr 2019 gyda chyfanswm o 30 o fyfyrwyr. Oherwydd cyfyngiadau Covid 19 yn 2020 a 2021 torrwyd ar draws y cyrsiau ar sawl achlysur, ac estynnwyd y cyfnod hyfforddi o bedwar mis i ddau ddeg dau, ond mae WOTGA yn falch o gael dweud y cafodd y tri eu cwblhau ym mis Medi 2021. Rhoddodd rhai myfyrwyr y gorau iddi am amrywiaeth o resymau, ond mae'n glod mawr i'r hyfforddwyr fod 26 o fyfyrwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus a bellach yn Dywyswyr Bathodyn Gwyrdd Cymru.

**Pwy oedd yn rhan ohono?**

Pwyllgor Gwaith WOTGA oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r prosiect a chynhaliwyd cyrsiau'r Bathodyn Gwyrdd gan y tîm hyfforddwyr.

O'r dechrau, mae WOTGA wedi sicrhau bod Croeso Cymru yn ymwybodol o'i chynlluniau a'r hyn y mae wedi'i wneud i ddarparu hyfforddiant i dywyswyr twristiaid sy'n bodloni safonau rhyngwladol cymeradwy ac sy'n rhoi gwerth eu harian i fyfyrwyr. Mae WOTGA yn ddiolchgar i Croeso Cymru am ei gefnogaeth a'i adborth cadarnhaol.
Mae WOTGA wedi gweithio'n agos drwy bob cam o'r rhaglen gyda grŵp ymgynghori FEG ar hyfforddiant.

**Sut cafodd y prosiect ei ariannu?**

Mae WOTGA yn gymdeithas o aelodau a daw'r rhan fwyaf o'i hincwm oddi wrth danysgrifiadau aelodau. Bu'n bosibl iddi neilltuo ychydig o arian cyfatebol a'i ychwanegu at y cyllid a gafwyd ar gyfer y prosiect. Talodd y myfyrwyr eu costau llety eu hunain yn ystod rhan breswyl y rhaglen hyfforddi hyfforddwyr. Fodd bynnag, heb gymorth ariannol TPIF, mae'n annhebygol y gellid bod wedi cyflawni nodau'r prosiect.

Credwn fod ffordd newydd WOTGA o hyfforddi tywyswyr twristiaid, sef prif ganlyniad prosiect TPIF, yn ddefnydd da o arian. Amcangyfrifwyd y byddai rhedeg cymhwyster Bathodyn Glas drwy'r system Addysg Uwch yn golygu ffioedd dysgu o ryw £7,440.00 fesul myfyriwr, cost rhy uchel i lawer o ddarpar dywyswyr. Gellir darparu cyrsiau WOTGA am hanner y pris hwnnw.

**Ble aethoch chi am help a chyngor?**

Rydym yn ddyledus i Louisa Giles, y Rheolwr Ymgysylltu Rhanbarthol yn Croeso Cymru a'n prif bwynt cyswllt ar gyfer TPIF. Cawsom gyngor gwerthfawr ganddi gydol y prosiect.
Mae ein perthynas broffesiynol a hwylus â FEG a'i hyfforddwyr hefyd wedi bod yn gaffaeliad i sicrhau bod y rhaglen hyfforddi yn llwyr fodloni'r safon ryngwladol a ddisgrifiwyd.

**Beth yw'ch camp fwyaf hyd yma?**

Er gwaethaf yr holl heriau personol a phroffesiynol yn sgil pandemig Covid-19, mae ymroddiad hyfforddwyr WOTGA wedi bod yn ddiwyro ac er nad yw pawb wedi cael cyfle i gwblhau ei bortffolio, mae holl fyfyrwyr cwrs 2018 ond un wedi cadarnhau eu bod am ennill y cymhwyster llawn eleni.

**A'r her fwyaf?**

Gallai Covid 19 fod wedi cael effaith drychinebus ar y tri chwrs Bathodyn Gwyrdd, ond mae'r hyfforddwyr wedi bod yn greadigol; trefnwyd amrywiaeth o weminarau ganddynt i gynnal diddordeb ac i ddysgu'r myfyrwyr yn ystod y cyfnodau pan nad oedd modd cwrdd wyneb yn wyneb; cafodd sesiynau hyfforddi ac arholiadau ymarferol eu hail-drefnu, yn aml sawl gwaith. Ni wnaeth y rheolwyr na'r hyfforddwyr ddigalonni unwaith a llwyddodd

dau ddeg chwech o'r tri deg o fyfyrwyr gwreiddiol i gwblhau'r tair rhaglen Bathodyn Gwyrdd yn llwyddiannus. Maen nhw bellach yn Dywyswyr Bathodyn Gwyrdd Cymru.
Roedd yr ail her a drechwyd gan y tîm hyfforddi yn broblem sy'n codi'n aml. Mae Tywyswyr Bathodyn Glas o rannau eraill o'r DU yn aml yn dod ag ymwelwyr i Gymru fel rhan o daith o'r DU, ac mae WOTGA yn teimlo'n gryf ei bod yn bwysig y dylai fod ganddynt wir ddealltwriaeth o ddiwylliant a hanes Cymru o safbwynt Cymreig er mwyn iddynt allu ei rhannu â'u cleientiaid. Mae dau gwrs cymeradwyo ar-lein, 'Telling the Stories of South Wales' a 'Telling the Stories of North Wales' a gynigiwyd yn unswydd i dywyswyr amlieithog y Bathodyn Glas o rannau eraill o'r DU wedi'u cynnal yn llwyddiannus a'u croesawu gan gyfranogwyr.

**Unrhyw gynghorion i'r rhai sy am sefydlu prosiect tebyg?**

Ym marn WOTGA, sail llwyddiant y prosiect hwn yw bod yr arian wedi'i ddefnyddio i greu adnodd y gellir ei ddefnyddio ymhell i'r dyfodol, er budd y sector twristiaeth yng Nghymru. Mae'r galw am sgiliau tywys ar bob lefel yn amlwg yn ôl nifer y ceisiadau sy'n dod i law i'n hyfforddwyr newydd gynnal cyrsiau, ac mae'n ymddangos bod hyn yn debygol o barhau. Mae hyn yn golygu bod y buddsoddiad hwn o arian sector cyhoeddus yn ddefnydd da o arian – sef prif linyn mesur unrhyw gynnig ar gyfer prosiect.

**Beth sydd nesaf ar gyfer eich prosiect?**

Bydd cwrs Draig y Bathodyn Glas yn dechrau ym mis Tachwedd, ar gyfer Tywyswyr Bathodyn Gwyrdd Cymru sydd am ennill cymhwyster i gael tywys ledled Cymru, a Thywyswyr Bathodyn Glas o wledydd eraill y DU sydd am ychwanegu Bathodyn Glas Cymru at eu cymwysterau.
Mae ymholiadau eisoes yn dod i law ar gyfer y cyrsiau Bathodyn Gwyrdd nesaf fydd yn cael eu cynnal yn hydref 2023..
Mae WOTGA wedi ennill contractau gan Gyngor Ynys Môn i gynnal tri phrosiect hyfforddi:

- Creu Rhaglen Llysgenhadon ar-lein
- Croesawu Mordeithiau
- Hyfforddi warden traeth tymhorol

